# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR SAFONAU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD GWENER, 20 IONAWR 2017 AM 9.35 AM

**YN BRESENNOL**: M Williams (Is-gadeirydd) a oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
| --- | --- | --- |
| J A Hale | C E Lloyd | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
| --- | --- | --- |
| G Evans | | |

**Cynrychiolydd Cyngor Cymuned/Tref**
P Crayford

**Swyddog(ion)**

| | |
| --- | --- |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): L G Thomas
Aelodau Cyfetholedig(wyr): J Burgess

18 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

19 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2016 fel cofnod cywir.

20 **ADOLYGU ESGUSODEBAU.**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn rhoi'r diweddaraf i'r Pwyllgor Safonau ynghylch y drefn oddefebau newydd a diwygiadau i ddeddfwriaeth.

Dywedodd fod unrhyw oddefebau yn ddilys tan yr etholiad llywodraeth leol nesaf (4 Mai 2017) neu am gyfnod o amser a nodwyd gan y Pwyllgor Safonau (pa un bynnag a ddaw'n gyntaf). Byddai'r holl oddefebau a ganiatawyd gan Bwyllgor Safonau Dinas a Sir Abertawe felly yn gorffen ar 4 Mai 2017.

Fel rhan o'r Adolygiad o Oddefebau Cynghorwyr hwn, adolygwyd a newidiwyd y ffurflen. Bwriad y ffurflen newydd hon yw symleiddio'r cais am oddefeb drwy wella'r nodiadau arweiniol i adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol.

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu a defnyddio'r Ffurflen Gais am Oddefeb i Gynghorwyr – Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Goddefebau) (Cymru) 2001 (fel y'i diwygiwyd) o 4 Mai 2017.

## 21 TORRI CÔD YMDDYGIAD - CWYNION A WNAED I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (OGCC).

Darparwyd rhestr gyfredol o gwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW) benderfynu arnynt mewn perthynas â thorri'r Côd Ymddygiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

## 22 CYNLLUN GWAITH 2016 - 2017.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd Raglen Waith 2016-2017 wedi'i diweddaru.

Nid oedd eitemau wedi'u nodi ar gyfer y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 3 Mawrth 2017 ac felly ystyrid canslo'r pwyllgor.

Byddai'r Cyfarfodydd Blynyddol gydag Arweinwyr Pleidiau Gwleidyddol a Chadeiryddion Pwyllgorau yn dechrau yn dilyn Etholiad Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017 ac ym mis Medi/Hydref 2017.

## 23 Y DIWEDDARAF AR SEDDU GWAG I AELODAU ANNIBYNNOL AR Y PWYLLGOR SAFONAU. (LLAFAR)

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yr wybodaeth ddiweddaraf am lafar ar y sefyllfa bresennol o ran y ddwy sedd wag i Aelodau Annibynnol ar y Pwyllgor Safonau.

Roedd Panel Swyddi Gwag y Pwyllgor Safonau wedi ystyried 2 gais. Fodd bynnag, ni apwyntiwyd y naill ymgeisydd na’r llall. Bydd y broses yn ailgychwyn yn fuan.

**PENDERFYNWYD** y dylid:

1) Nodi'r diweddariad;
2) Anfon manylion cyswllt unrhyw grwpiau/fusnesau perthnasol sydd efallai â diddordeb yn y swyddi gwag at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.00 am

**CADEIRYDD**